# Cynefinoedd a rhywogaethau



Big City Butterflies. Credyd: Chris O'Donovan.

Rydym yn cefnogi prosiectau sy'n gwarchod ac yn gwella cynefinoedd rhywogaethau.

Rydym am i brosiectau wella ein gwybodaeth a'n dealltwriaeth o fyd natur, a helpu pobl i gael mynediad at ein treftadaeth naturiol unigryw, gofalu amdani a'i gwerthfawrogi.

Gan ddefnyddio arian a godir gan chwaraewyr y Loteri Genedlaethol, rydym yn dosbarthu grantiau rhwng £10,000 a £10miliwn.

## Gall ein cyllid eich helpu i:

- gwella cynefinoedd sydd dan fygythiad
- helpu pobl i archwilio ein moroedd a'u bywyd gwyllt
- gwella llif afon araf ac ansawdd d?r
- defnyddio natur a bod allan yn yr awyr agored i wella bywydau, iechyd a llesiant pobl
- addysgu pobl am ddaeareg leol a sut mae'n effeithio arnom ni

## Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gan brosiectau

Mae’n bwysig ein bod yn arwain ac yn ysbrydoli cenedlaethau’r dyfodol i ofalu’n well am ein byd naturiol.

Rydym felly am weld prosiectau a fydd yn gwneud gwahaniaeth strategol i fyd natur. Gallai hyn olygu:

- gweithio ar raddfa tirwedd
- creu partneriaethau newydd uchelgeisiol
- archwilio, profi a rhannu ffyrdd newydd o weithio
- ymchwilio i ffynonellau incwm newydd ar gyfer cadwraeth byd natur
- ysbrydoli a chefnogi ffyrdd newydd o helpu pobl i ymgysylltu â byd natur

## Pethau allweddol i'w darllen

- ein harweiniad ar dirweddau a phrosiectau byd natur
- ein hymchwil: Beth rydym wedi'i wneud dros fyd natur?



## ddordeb hefyd mewn ...

Drew Bennellick, ein Pennaeth Tir, Môr a Natur, a Harriet Bennett, Swyddog Rheoli Tir prosiect Partneriaeth Tirwedd Chilterns, gydag Andrew Stubbings, o Manor Farm, sef enghraifft o dirwedd gysylltiedig. Ffoto: Oliver Dixon.



### archod tirweddau safon fyd-eang y DU

A Natterer's bat flying inside the roof of St Lawrence church, Radstone. Credit: Chris Damant, Bernwood Ecology.



## hurch communities care for their bats

Parc Pearson yn Kingston upon Hull.

## £15miliwn i helpu i roi natur wrth wraidd ein trefi a’n dinasoedd